# YR ATODLEN

Rheoliad 15

**1.** Cydsyniad o dan adran 2(3) o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979(**1**) (rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion rhestredig).

**2.** Cydsyniad o dan adran 178(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**2**) (cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau etc dros briffyrdd).

**3.** Cydsyniad o dan adran 8(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (**3**) (awdurdodi gwaith: cydsyniad adeilad rhestredig).

**4.** Cydsyniad o dan adran 74(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (**4**) (rheoli dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth).

**5.** Cydsyniad o dan adran 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**5**) (gofyniad am gydsyniad sylweddau peryglus).

**6.** Cydsyniad o dan adran 13 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (**6**) (cais am gydsyniad sylweddau peryglus heb amod a osodwyd ar gydsyniad blaenorol ).

**7.** Cydsyniad o dan adran 17 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (**7**) (dirymu cydsyniad sylweddau peryglus pan newidir rheolaeth tir).

**8.** Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad) ac eithrio caniatâd cynllunio amlinellol(**8**).

**9.** Awdurdodiad o dan adran 247(1) o Ddeddf 1990(**9**) (gorchymyn yn awdurdodi cau neu ailgyfeirio priffordd).

**10.** Awdurdodiad o dan adran 248(2) o Ddeddf 1990(**10**) (gorchymyn yn awdurdodi cau neu ailgyfeirio priffordd sy'n croesi neu'n ymuno â llwybr priffordd newydd arfaethedig).

**11.** Gorchymyn o dan adran 251(1) o Ddeddf 1990(**11**) (gorchymyn yn diddymu hawliau tramwy cyhoeddus dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio).

**12.** Cydsyniad y gofynnir amdano o dan adran 16(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**12**) (dadgofrestru a chyfnewid: ceisiadau).

---

(**1**) 1979 p. 46. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999") ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno ("Atodlen 11").
(**2**) 1980 p. 66. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999, ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
(**3**) 1990 p. 9. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999, ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
(**4**) Diwygiwyd adran 74(1) gan adran 63 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (p. 24) a pharagraffau 7, 12(1) and (2) o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno.
(**5**) 1990 c.10. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999, ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11.
(**6**) Diddymwyd adran 13(7) gan adrannau 144 a 162 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), paragraff 6 o Ran I o Atodlen 13 a Rhan VII o Atodlen 16 i'r Ddeddf honno.
(**7**) Mewnosodwyd 17(3) gan adran 79(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) and pharagraff 20 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.
(**8**) Gweler adran 92(1) o Ddeddf 1990 ar gyfer y diffiniad o "outline planning permission" ("*caniatâd cynllunio amlinellol*").
(**9**) Diwygiwyd adran 247(1) gan erthygl 5(b) o O.S. 2006/1281. Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) Gwnaed diwygiadau i adran 248(2) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) Mae adran 251(1) yn cael effaith fel pe bai Awdurdod Parc Cenedlaethol yn awdurdod lleol at ddibenion Deddf 1990, yn rhinwedd adran 65 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 2(3) o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno.
(**12**) 2006 p. 26. Gweler adran 61(1) ar gyfer y diffiniad o "appropriate national authority".

**13.** Cydsyniad sy'n ofynnol gan adran 38(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (gwahardd gwneud gwaith heb gydsyniad).